

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Tachwedd 2023

Contents

Crynodeb	3
1. Rhagymadrodd	5
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	6
3. Darlun BBaCh yn y DU a Chymru	16
4. Y ddarpariaeth o gyllid i BBaCh a chost cyllid	21
5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru	25
6. Casgliadau	30
Atodiad 1	31
Atodiad 2	32

Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche a Wanxiang Cai

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru

Dyma adroddiad chwarterol cyntaf Dirnad Economi Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Mae amodau economaidd y DU yn parhau i fod yn heriol, gyda chwyddiant, cyfraddau llog a chostau byw yn dal i ddominyddu penawdau. Ym mis Medi 2023 penderfyniad Banc Lloegr oedd gadael cyfraddau llog heb eu newid ar 5.25%.

Yn rhyngwladol, mae pwysau chwyddiant a chodi cyfraddau banc canolog wedi cyfyngu ar dwf byd-eang, er y gall y pwysau hyn fod yn lleddfu. Cafodd rhagamcanion twf y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2023 eu huwchraddio ychydig i 3% yn eu Rhagolwg Economaidd Byd-eang diweddar. Er bod adferiad Tsieina wedi arafu yn ystod 2023, nid yw hyn wedi effeithio'n sylweddol ar dwf byd-eang hyd yma, gan fod rhai economïau mawr eraill, megis yr Unol Daleithiau, wedi profi twf gwell na'r disgwyl.

Amodau economaidd sy'n wynebu mentrau bach.

Mae data SYG yn dangos bod cyfradd flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât ffatri) wedi cynyddu 0.3 pwynt canran o ostyngiad o 0.7% ym mis Gorffennaf 2023 i ostyngiad o 0.4% ym mis Awst. Roedd cyfradd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis y DU yn 6.7% ym mis Awst 2023, i lawr o 6.8% ym mis Gorffennaf. Mae'r cyfraddau hyn yn cyferbynnu â'r uchafbwynt diweddar o 11.1% ym mis Hydref 2022.

Yn dilyn cynnydd o 0.1% yn 2023 Ch1, mae'r amcangyfrif chwarterol cyntaf o gynnyrch domestig gros (CDP) real y DU gan yr SYG yn dangos bod yr economi wedi cynyddu 0.2% yn 2023 Ch2 (Ebrill i Fehefin 2023). Mae amcangyfrifon CDG misol yn dangos bod economi'r DU wedi crebachu 0.5% ym mis Gorffennaf 2023, yn dilyn twf o 0.5% ym mis Mehefin 2023, a gostyngiad o 0.1% ym mis Mai.

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU 3.4% yn 2023 Ch2. Roedd hyn yn dilyn cynnydd o 3.3% yn 2023 Ch1. Roedd buddsoddiad busnes yn 2023 Ch2 4.5% yn uwch na 2019 Ch4, y chwarter cyn y pandemig COVID-19.

Roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn 989,000 yn y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst, sef gostyngiad o 64,000 o gymharu â'r chwarter blaenorol, Mawrth i Fai 2023. Rhwng Mehefin ac Awst 2023, roedd cyfanswm y swyddi gweigion wedi gostwng 268,000 o gymharu â'r lefel flwyddyn yn ôl.

Mae amcangyfrifon cynnar o Gwybodaeth Amser Real TWE yn dangos cynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ar gyfer Awst 2023 i 30. 1m, cynnydd o 1.5% dros y ffigwr ar gyfer Awst 2022. Yng Nghymru tyfodd nifer y gweithwyr cyflogres 18,000 (neu 1.4%) i 1.32m yn y flwyddyn hyd at Awst 2023.

Amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Orffennaf 2023 yn 4.3%, cynnydd o 0.5 pwynt canran o'r cyfnod tri mis blaenorol. Yng Nghymru, y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Gorffennaf 2023 oedd 3.8% (gostyngiad o 1.1 pwynt canran ers y tri mis blaenorol).

Yn ystod y flwyddyn hyd at Awst 2023, cynyddodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU 0.03m i 1.55 miliwn o bobl. Yng Nghymru, hawliodd 61,000 o bobl fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra (sy'n hafal i 3.2% o'r boblogaeth oedran gweithio, o gymharu â ffigur o 3.7% ar gyfer y DU) ym mis Awst 2023, gostyngiad o 2,800 o hawlwy'r o'r flwyddyn hyd at Awst 2022.

Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, cyfradd dileu swyddi'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Gorffennaf 2023 oedd 3.6 fesul 1,000 o weithwyr. Yng Nghymru nid yw'r amcangyfrif ar gael ar gyfer y tri mis hyd at fis Gorffennaf. Fodd bynnag, ar gyfer y tri mis hyd at fis Mehefin y gyfradd ar gyfer Cymru oedd 2.6 fesul 1,000 o weithwyr.

Roedd mynegeion allbwn yng Nghymru wedi aros yn gymharol sefydlog am tua 8 chwarter yn olynol hyd at 2023 Ch1. Er bod mynegai gwasanaethau'r farchnad wedi bod ychydig yn uwch na'r flwyddyn gyn-bandemig yn 2019, nid yw'r mynegai cynhyrchu ar gyfer Cymru wedi adennill i lefelau 2019, a gyda'r

mynegai wedi gostwng yn 2023 Ch1. Mewn cyferbyniad, mae mynegai adeiladu Cymru wedi dangos twf cryf yn 2022Ch4 a 2023Ch1.

Yn eu Rhagolygon Economaidd DU Haf 2023, rhagwelodd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol dwf CDG y DU o 0.4% yn 2023, a 0.3% yn 2024.

Y galw am a'r cyflenwad o gyllid BBaChau.

Yn dilyn rhywfaint o adferiad yn 2023 Ch1, gostyngodd mynegai hyder busnesau bach y DU o'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2023 Ch2. Symudodd y mynegai hyder o -45.8 yn 2022Ch4 i -2.8 yn 2023Ch1 ac yna i -14.2 yn 2023Ch2.

Ers 2021 Ch2, mae nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru wedi rhagori ar enedigaethau busnes ym mhob un ond chwarter (2022Ch2). Yng Nghymru roedd 2,580 o enedigaethau busnes a 3,015 o farwolaethau busnes yn 2023 Ch2.

Adroddodd Arolwg o Effeithiau ac Amodau Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 21 Awst 2023 i 3 Medi 2023 (Wave 90) ostyngiad yng nghanran y busnesau a roddodd y gorau i fasnachu'n barhaol i 1.3% (3.0% oedd y ffigur rhwng 16 Mai a 11 Mehefin 2023). Nododd ymatebwyr Cymru mai prisiau ynni a gostyngiad yn y galw oedd eu prif bryderon.

Gwelwyd gostyngiad sydyn yn nifer yr ansolfedd yng Nghymru a Lloegr o 2,551 ym mis Mai 2023 i 1,727 ym mis Gorffennaf 2023. Roedd y gostyngiad wedi'i ysgogi'n bennaf gan ddatodiad gwirfoddol credydwy, a ostyngodd o 2,176 ym mis Mai 2023 i 1,336 ym mis Gorffennaf 2023.

O gymharu â 2022 Ch2, roedd dyfarniadau llys sirol yng Nghymru a Lloegr i fyny 20% i 277,000 yn 2023 Ch2, gyda 92% o'r rhain yn ddyfarniadau diffygdlu. Yn y cyfamser, cynyddodd hawliadau llys sirol 12% i 419,000 o gymharu â 2022 Ch2. Mae'r codiadau hyn yn peri pryder gan y gall dyfarniadau llys sirol ar gyfer dyled ragfynegi ansolfedd yn y dyfodol yn rhannol.

Mae Arolwg Cyflwr Credyd chwarterol Banc Lloegr o fanciau a benthycwyr cymdeithasau adeiladu yn adrodd bod cyflenwad a galw cymharol sefydlog am fenthyciadau busnes yn 2023Ch2. Adroddwyd bod cyfraddau diofyn ar fenthyciadau busnes wedi aros yn sefydlog ar draws busnesau o bob maint yn ystod 2023 Ch2. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai cyfraddau diofyn yn codi ar gyfer mentrau bach.

Dangosodd y Monitor Cyllid BBaChau 2023Ch2 fod cyfran y BBaChau a oedd wedi defnyddio unrhyw gyllid allanol yn y tri mis diwethaf wedi cynyddu o 34% yn 2022 Ch4 i 44% yn 2023Ch2.

Mae data Banc Lloegr yn dangos bod cyfradd twf benthyciadau BBaCh yn -4.2% ym mis Gorffennaf 2023, gan nodi gostyngiad mewn benthyciadau BBaCh am 23 mis ers mis Medi 2021. Yn y cyfamser, cynyddodd y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyciadau BBaCh am 22 mis yn olynol, o 2.65 % ym mis Hydref 2021 i 7.55% ym mis Gorffennaf 2023.

Datgelodd cronfa ddata Bureau van Dijk FAME yr amcangyfrifwyd bod 5.8% o BBaChau yng Nghymru yn y categori statws credyd Risg Uchaf, i fyny o tua 4.7% ym mis Medi 2022.

Banc Datblygu Cymru.

Yn 2023/24 Ch1 cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 114 o fuddsoddiadau, gyda chyfanswm gwerth o bron i £27m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â bron i 700 o swyddi newydd a rhai a ddiogelwyd.

Roedd dyled newydd a buddsoddiad ecwiti yn 2023/24 Ch1 bron yn £18m, gyda bron i £9m pellach o fuddsoddiad datblygu eiddo. Derbyniodd busnesau yn ne ddwyrain Cymru bron i hanner cyfanswm y cronfeydd buddsoddi yn ystod Ch1 2023/24, gyda chwmnïau yn y canolbarth a'r de-orllewin yn cael tua 29% o'r cronfeydd, a busnesau yn y gogledd yn cyfrif am bron i 23% o'r cronfeydd buddsoddi.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad BBaChau yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y mae BBaChau Cymru yn gweithredu ynddo ac yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid BBaChau, a'r cyflenwad a'r gost ohono. Mae Adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Mae'r adran olaf yn rhoi rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (adroddir yn bennaf

mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau yn y cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o ddiffyg cyfatebiaeth amserol rhwng data yn yr adroddiad hwn.

Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd eisoes, mae Dirnad Economi Cymru wedi ehangu i gynnwys partneriaid academiaidd newydd, Ysgol Busnes Bangor a'r Ganolfan Ymchwil Menter. Bydd y cydweithio ehangach sydd bellach yn rhan o Dirnad Economi Cymru yn cyhoeddi cyfres o allbynnau yn ystod blwyddyn 2023/24 gan gynnwys adroddiadau ar:

- Gwerthusiad terfynol o effeithiau ymyriadau ariannol Covid-19 Llywodraeth Cymru ar fusnesau,
- Busnesau ymchwil a datblyg-ddwys yng Nghymru,
- Asesu a yw ecwiti cam cynnar ar gael yng Nghymru,
- Polisiâu di-garbon net a mentrau BBaCh tuag at ddatgarboneiddio.

- Parhaodd cynnydd mewn cyfraddau banc canolog i effeithio ar dwf a chyfyngu ar yr economi fyd-eang yn 2023 Ch2. Fodd bynnag, roedd rhai arwyddion o leddfu wrth i ragolwg twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2023 gael ei uwchraddio, 0.2 pwynt canran, i 3.0%.
- Penderfynodd Banc Lloegr adael cyfraddau llog heb eu newid ar 5.25% ym mis Medi 2023, gan nodi bod tystiolaeth gynyddol o rywfaint o effaith gan bolisi ariannol llymach ar y farchnad lafur a'r economi yn gyffredinol.
- Roedd data CDG amcangyfrifedig y chwarter cyntaf yn dangos bod economi'r DU wedi tyfu 0.2% yn 2023 Ch2, fymryn yn uwch na'r gyfradd twf o 0.1% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 6.7% ym mis Awst 2023, i lawr o 6.8% ym mis Gorffennaf.
- Roedd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn y cyfnod o dri mis hyd at Orffennaf 2023 i lawr 1.1 pwynt canran ers y chwarter blaenorol, i 3.8%. Cyfradd gymharol y DU oedd 4.3% (cynnydd o 0.5 pwynt canran ar y chwarter).

Rhagolygon byd-eang

Yn y Rhagolwg Economaidd y Byd¹ y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, y rhagolwg ar gyfer cynnyrch domestig gros (GDP) y byd oedd y byddai twf yn arafu o 3.5% yn 2022 i 3.0% yn 2023. Roedd hyn 0.2 pwynt canran yn uwch na y rhagolwg hwnnw yn Rhagolwg Economaidd y Byd Ebrill 2023² ond yn dal yn gymharol isel o gymharu â chyfraddau twf byd-eang y gorffennol.

Rhagolwg y Gronfa Ariannol ryngwladol a adwaenir fel yr IMF ar gyfer twf CDG byd-eang yn 2024 oedd 3.0%, sydd ychydig yn uwch na rhagfynegiad diweddaraf Banc y Byd ym mis Mehefin o 2.1%.³ Yn ôl yr IMF, rhagwelwyd y byddai twf CDG yn yr Unol Daleithiau yn 1.8% yn 2023, cyn disgyn i 1.0% yn 2024, gyda'r ffigurau

cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yn sefyll ar 0.9% yn 2023 a 1.5% yn 2024. Yn y UK cafodd yr amcanestyniad ar gyfer 2023 ei uwchraddio 0.7 pwynt canran o adroddiad rhagolwg Ebrill 2023, i 0.4%, a chyda thwf rhagamcanol o 1.0% yn 2024. Disgrifiwyd y rhesymau dros yr adferiad cymharol a ragwelir yng nghyfradd twf CDG y DU fel adlewyrchu defnydd a buddsoddiad cryfach na'r disgwyl yn dilyn cwmp mewn prisiau ynni; cytundeb Fframwaith Windsor yn lleihau ansicrwydd Brexit; a mwy o hyder yn y sector bancio wrth i "straen bancio byd-eang wasgaru" ym mis Mawrth⁴.

Nododd yr IMF fod cynnydd yng nghyfraddau polisi banc canolog, i fynd i'r afael â chwyddiant, yn parhau i effeithio ar dwf, tra'n rhagweld y bydd prif chwyddiant byd-eang yn disgyn o 8.7%

¹ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2023/07/10/world-economic-outlook-update-july-2023>

² <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2023/04/11/world-economic-outlook-april-2023>

³ <https://openknowledge.worldbank.org/server/api/core/bitstreams/6e892b75-2594-4901-a036-46d0dec1e753/content>

⁴ PTudalen 5 o IMF Gorffennaf 2023 Adroddiad Llawn Rhagolwg Economaidd y Byd: <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2023/07/10/world-economic-outlook-update-july-2023>

yn 2022, i 6.8% yn 2023, a 5.2% yn 2024, ond gyda chwyddiant craidd debygol o ddisgyn yn arafach. Mae Rhagolwg Economaidd yr OECD, Adroddiad Interim⁵ a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, yn rhagweld y byddai chwyddiant y DU yn 2023 yn 7.2% ar gyfartaledd, sef cynnydd o 0.3 pwynt canran o'i ragfynegiad blaenorol ar gyfer y flwyddyn, a chyfradd uwch nag unrhyw economi ddatblygedig arall ar gyfer 2023.

Roedd risgiau i weithgarwch economaidd byd-eang a nodwyd yn adroddiad Rhagolwg Economaidd y Byd yr IMF⁶ yn cynnwys pwysau chwyddiantol pellach o ganlyniad i gynnydd yn y gwrthdaro yn yr Wcráin; ac arafu yn adferiad Tsieina, a allai ddeillio o grebachiad yn sector eiddo tiriog y genedl (gydag, er enghraifft, Country Garden, un o gwmnïau eiddo tiriog mwyaf Tsieina, mewn sefyllfa fregus ar hyn o bryd oherwydd dyledion cynyddol)⁷.

Lleddfu rhywfaint ar bwysau chwyddiant y DU

Mae data gan yr SYG yn amlygu bod cyfradd flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât ffatri) wedi cynyddu 0.3 pwynt canran o ostyngiad o 0.7% ym mis Gorffennaf 2023 i ostyngiad o 0.4% ym mis Awst. Hwn oedd y cynnydd mis ar fis cyntaf yn y gyfradd flynyddol ers mis Gorffennaf 2022, ond yr ail fis yn olynol y bu'r gyfradd yn negyddol.⁸

Cynhyrchion petrolewm wedi'u mireinio oedd â'r cyfraniad mwyaf tuag i lawr at y gyfradd chwyddiant allbwn blynyddol ym mis Awst 2023, gyda chyfraniad negyddol o 3.5 pwynt canran. Daeth y cyfraniad tuag at i fyny gwrthbwysu mwyaf at y gyfradd chwyddiant allbwn blynyddol ym mis Awst 2023 o allbynnau eraill o weithgynhyrchu (1.2 pwynt canran). Nododd yr SYG, er bod cyfraddau chwyddiant prisiau cynhyrchwyr blynyddol wedi troi'n negyddol, gyda phrisiau mewn rhai sectorau'n gostwng, roedd y lefelau mynegai ar gyfer prisiau mewnbwn ac allbwn yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'u lefelau yn 2021.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd chwyddiant deuddeg mis Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) yn y DU yn 6.7% ym mis Awst 2023, i lawr o 6.8% ym mis Gorffennaf.⁹ Mae'r cyfraddau hyn yn cyferbynnu â'r uchafbwynt diweddar o 11.1% ym mis Hydref 2022. Gwelwyd arafu prisiau bwyd fel un o'r prif ddylanwadau ar y cwmp 'syndod' mewn chwyddiant ym mis Awst 2023.¹⁰

Ym mis Medi 2023, penderfynodd Banc Lloegr adael cyfraddau llog heb eu newid ar 5.25%. Nododd yn ei Grynodedd Polisi Ariannol¹¹ ar gyfer mis Medi fod tystiolaeth gynyddol o rywfaint o effaith o bolisi ariannol llymach ar y farchnad lafur a'r economi yn gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad graddol yn nifer y swyddi gwag ochr yn ochr â diweithdra cynyddol yn y DU, a disgwyliadau y bydd economi'r DU yn tyfu ar gyfradd fwy tawel yn rhannol oherwydd y cynnydd diweddar mewn costau benthyca.

⁵ <https://www.oecd-ilibrary.org/sites/1f628002-en/index.html?itemId=/content/publication/1f628002-en#chapter-d1e50-37ed2a2086>

⁶ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2023/07/10/world-economic-outlook-update-july-2023>

⁷ <https://www.theguardian.com/world/2023/aug/31/country-garden-chinese-property-developer-reports-half-year-financial-loss-fears-default-risk>

⁸ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/august2023>

⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/latest>

¹⁰ <https://www.bbc.co.uk/news/business-66844295>

¹¹ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2023/september-2023>

Mae amcangyfrifon twf CDG y DU yn dangos bod yr economi wedi ehangu ychydig yn 2023 Ch2

Yn dilyn cynnydd o 0.1% yn 2023Ch1, mae'r amcangyfrif chwarterol cyntaf o gynnyrch domestig gros (GDP) real y DU gan yr SYG yn dangos bod yr economi wedi cynyddu 0.2% yn 2023Ch2 (Ebrill i Fehefin 2023)¹². O ddiwedd arbennig, ar ddechrau mis Medi 2023, oedd y cyhoeddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod economi'r DU wedi gwneud adferiad llawer mwy cadarn yn ystod Covid ar ddiwedd 2021 nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol.¹³ Roedd "data cyfoethocach" o'i harolygon blynyddol a'i data gweinyddol wedi galluogi'r SYG i ailgyfrifo ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol fel: bod economi'r DU bellach yn cael ei hamcangyfrif i fod 0.6% yn fwy yn ystod tri mis olaf 2021 o gymharu â lefelau cyn-bandemig (mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol bod economi'r DU 1.2% yn llai); roedd y cwmp yn economi'r DU yn ystod y cyfyngiadau symud yn 2020 yn llai na'r amcangyfrif cyntaf (cynnyrch yn gostwng 10.4%, yn lle 11.0%); ac roedd yr adferiad yn 2021 yn gyflymach nag a gyfrifwyd yn wreiddiol, gyda thwf CDG o 8.7% yn lle 7.6%. Gyda'i gilydd, mae rhai sylwebwyr wedi awgrymu bod holl naratif economaidd ôl-bandemig y DU o dwf swrth "newydd gael ei ddiwygio".¹⁴

Yn ôl sector, amcangyfrifir bod allbwn gwasanaethau wedi codi 0.1% yn 2023 Ch2, yn dilyn cynnydd o 0.1% yn 2023 Ch1. Yr is-sector gwybodaeth a chyfathrebu (a gynyddodd 1.0% yn 2023 Ch2), ynghyd â gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (a gododd 1.6% yn 2023 Ch2) a ddarparodd y cyfraniad cadarnhaol mwyaf at dwf. Roedd y cynnydd yn yr olaf wedi'i ysgogi gan wasanaethau bwyd a diod a welodd

Mehefin cryf, gyda'r SYG yn dyfynnu tystiolaeth anecdotaidd bod tywydd braf a chynnydd mewn digwyddiadau byw wedi rhoi hwb i drosiant busnesau yn ystod y mis hwn. Bu gostyngiad allbwn mewn gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol o 1.0% yn 2023Ch2, gyda gostyngiadau mewn ymchwil a datblygu gwyddonol, gweithgareddau pensaernïol a pheirianeg a hysbysebu ac ymchwil marchnad.

Yn 2023Ch2, tyfodd allbwn cynhyrchu 0.7%, yn dilyn cynnydd o 0.1% yn y chwarter blaenorol. Cynhyrchu oedd prif yrrwr y twf hwn (cynnydd o 1.6%), gydag wyth o'i dri ar ddeg o is-sectorau yn dangos cynnydd yn y chwarter. Nododd yr SYG y gallai hyn adlewyrchu gostyngiad mewn prisiau mewn bwn dros y cyfnod gan gymryd peth o'r pwysau ariannol oddi ar weithgynhyrchu. Perfformiodd gweithgynhyrchu cerbydau modur, trelars, a lled-trelars yn arbennig o gryf yn y chwarter. Adroddodd y Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron (CGMM) gynnydd o 31.6% yng nghynhyrchiant ceir yn y DU, ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2023¹⁵ wrth i adferiad o heriau diweddar, megis prinder sglodion byd-eang, barhau.

Mae amcangyfrifon CDG misol yn dangos bod economi'r DU wedi crebachu 0.5% ym mis Gorffennaf 2023,¹⁶ yn dilyn twf o 0.5% ym mis Mehefin 2023, a gostyngiad o 0.1% ym mis Mai. Mae'r gostyngiad mewn CDG ym mis Gorffennaf wedi bod yn rhannol gysylltiedig â gweithredu diwydiannol yn y sector iechyd a thywydd gwlyb yn effeithio ar y sectorau adeiladu a manwerthu.

¹² <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/apriltajune2023>

¹³ <https://www.bbc.co.uk/news/business-66680188>

¹⁴ <https://news.sky.com/story/the-uk-actually-fared-much-better-after-covid-than-first-thought-heres-why-it-matters-12952220>

¹⁵ <https://www.smmr.co.uk/2023/08/six-months-of-growth-for-uk-car-production/>

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/july2023>

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU yn 2023 Ch2

Yn ôl yr SYG, tyfodd buddsoddiad busnes y DU yn 2023Ch2 3.4% (amcangyfrif dros dro).¹⁷ Roedd hyn yn dilyn cynnydd o 3.3% (amcangyfrif diwygiedig) yn 2023 Ch1.¹⁸ Roedd y cyfraniad cadarnhaol mawr at y twf hwn ym maes trafndiaeth, sector lle mae'r SYG yn nodi y gall buddsoddiad fod yn gyfnewidiol oherwydd gwerth uchel rhai offer trafndiaeth. Yn ystod 2023 Ch2 roedd buddsoddiad cymharol gryf mewn trafndiaeth awyr a gynyddodd 23%. Yn

dilyn 2023Ch1 cryf, gwelodd offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a pheiriannau ac offer eraill, ostyngiad mewn buddsoddiad yn 2023Ch2, gan adlewyrchu diwedd y cymhelliant uwch-ddidyniad, rhyddhad treth dros dro ar fuddsoddiad asedau cyfalaf cymwys, ar y 31ain o Fawrth 2023. Roedd buddsoddiad busnes yn 2023 Ch2 4.5% yn uwch na 2019Ch4, y chwarter cyn pandemig COVID-19.¹⁹

Cyhoeddiad ar ddyfodol gwaith dur Port Talbot

Ganol mis Medi 2023, cyhoeddwyd y byddai gwaith Tata ym Mhort Talbot, gwaith dur mwyaf y DU, yn derbyn hyd at £500m o fuddsoddiad gan lywodraeth y DU, ynghyd â £700m gan Tata Steel ei hun, i gadw'r safle yn gweithredu ac i helpu i'w drawsnewid fel bod ei gynhyrchiant yn wyrddach – gan dorri allyriadau trwy osod

ffwrneisi bwa trydan newydd.²⁰ Fodd bynnag, cododd pryderon y gallai hyd at 3,000 o swyddi gael eu colli ledled y DU pe bai'r symudiad hwn i ddulliau llai llafurddwys o gynhyrchu dur yn cael eu gwneud, a byddai gofyniad i'r DU ddibynnu ar fewnforion o fathau penodol o dduur y ni allai ffwrneisi newydd arfaethedig gynhyrchu.

Gostyngiad parhaus mewn swyddi gweigion yn y DU

Roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn 989,000 yn y cyfnod Mehefin i Awst – gostyngiad o 64,000 ers y chwarter blaenorol, Mawrth i Mai 2023.²¹ Rhwng Mehefin ac Awst 2023, roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 268,000 o'r lefel flwyddyn yn ôl, er eu bod wedi aros 188,000 yn uwch na'u lefel cyn-bandemig rhwng Ionawr a

Mawrth 2020. Roedd y gostyngiadau cyfrannol mwyaf mewn swyddi gwag ym mis Mehefin i fis Awst 2023 o'r chwarter blaenorol yn y diwydiannau gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth (gostyngiad o 15.7%), a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (gostyngiad o 12.1%).

¹⁷ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/apriltojune2023provisionalresults>

¹⁸ Mae data buddsoddi busnes yn destun adolygiad sylweddol yn dilyn yr amcangyfrif (dros dro) cyntaf.

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/datasets/grossfixedcapitalformationbysectorandasset>

²⁰ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-66819458>

²¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2023>

Mae amcangyfrifon cynnar o Wybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill²² yn dangos cynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogres yn y DU ar gyfer Awst 2023 i 30.1m, cynnydd o 449,000 o weithwyr (neu 1.5%) dros y ffigur ar gyfer Awst 2022, a chynnydd o 1,120,000 (neu 3.9%) ers mis Chwefror 2020.

Yn y flwyddyn hyd at Awst 2023, roedd y cynnydd mwyaf mewn gweithwyr cyflogedig ar gyflogres yn y DU yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 193,000 o weithwyr neu 4.7%) ac ar ei leiaf yn y sector cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 19,000 neu -0.4 %).²³ Gwelodd y sector cyfanwerthu a manwerthu, gwasanaethau gweinyddol a chymorth, adeiladu, llety a gwasanaethau bwyd, ac amaethyddiaeth, coedwigaeth, a physgota ostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflogedig rhwng Awst 2022 ac Awst 2023. Roedd y cynnydd canrannol uchaf mewn

gweithwyr cyflogres dros y flwyddyn mewn cynhyrchu a chyflenwi ynni (8.7% neu 9,000 o weithwyr), cyllid ac yswiriant (5.0% neu 53,000 o weithwyr), ac iechyd a gwaith cymdeithasol (fel y nodir uchod, 4.7% neu 193,000 o weithwyr).

Yng Nghymru cynyddodd nifer y gweithwyr cyflogedig 18,000 (neu 1.4%) i 1.32m yn y flwyddyn hyd at Awst 2023.²⁴ Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogres fesul sector yn cael ei ddiweddarau'n llai aml, ond mae'r data hyd at fis Gorffennaf 2023 yn dangos bod y cynnydd canrannol mewn gweithwyr cyflogres dros y flwyddyn ar ei uchaf mewn cyllid ac yswiriant (7.7% neu 2,800 o weithwyr).²⁵ Dros y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2023, bu cynnydd o 11,300 (neu 5.2%) o weithwyr cyflogedig yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol yng Nghymru, a 5,000 (neu 2.7%) mewn addysg.

Mae'r gyfradd ddiweithdra yn cynyddu yn y DU ond yn gostwng yng Nghymru

Amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Orffennaf 2023 yn 4.3%, cynnydd o 0.5 pwynt canran o'r cyfnod tri mis blaenorol.²⁶ Roedd y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y tri mis hyd at Orffennaf 2023 yn y Gogledd Orllewin (5.3%), Gogledd Ddwyrain (5.2%), a Gogledd Canolbarth Lloegr (5.0%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.7% %), Swydd Efrog a'r Humber (2.9%), a'r De Orllewin (3.6%). Yng Nghymru, y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Gorffennaf 2023 oedd 3.8% (gostyngiad o 1.1 pwynt canran ers y tri mis blaenorol).

Cyfradd dileu swyddi'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Orffennaf 2023 oedd 3.6

fesul 1,000 o weithwyr yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu.²⁷ Roedd hyn yn ostyngiad o gymharu â'r cyfnod blaenorol o dri mis (Ebrill i Fehefin 2023) lle'r oedd y gyfradd ddiswyddo yn 3.8. Gwelodd cyfradd dileu swyddi'r DU uchafbwynt o 14.4 fesul 1,000 o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2020, ac isafbwynt hanesyddol o 1.8 fesul 1,000 o weithwyr yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mai 2022.

Ar gyfer Cymru, mae'r data ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Orffennaf 2023 wedi'i atal ar sail datgelu, ond mae'r ffigurau sydd ar gael yn dangos mai'r gyfradd ddiswyddo ar gyfer Cymru yn y cyfnod tri mis hyd at fis Mehefin 2023 oedd 2.6 fesul 1,000 o weithwyr, sy'n ostyngiad o gymharu â y 3.3 fesul 1,000 o weithwyr yn

²² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/september2023>

²³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁴ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted/current>

²⁶ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

²⁷ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/redundancies/datasets/redundanciesbyindustryagesexandremploymentratesred02>

y ffigur ar gyfer y tri mis hyd at ddiwedd mis Mai 2023.²⁸ Roedd y gyfradd ddiswyddo yng Nghymru yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mehefin 2023 yn is na'r Alban (3.8 fesul 1,000 o weithwyr),

a Lloegr (3.9), ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (1.2). Dylid trin y data hyn yn ofalus gan ei fod yn seiliedig ar feintiau sampl cymharol fach ac nid yw wedi'i addasu'n dymhorol.

Cynydd yn y cyfrif hawlwr budd-dal diweithdra yn y DU ond gostyngiad yng Nghymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at Awst 2023, cynyddodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU 0.03m i 1.55 miliwn o bobl.²⁹ Yng Nghymru hawliodd 61,000 o bobl fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra (sy'n cyfateb i 3.2% o'r boblogaeth oedran gweithio, o gymharu â ffigur o 3.7% ar gyfer y DU) ym mis Awst 2023, gostyngiad o 2,800 o hawlwr o'r flwyddyn hyd at Awst 2022.³⁰

Yr ardaloedd awdurdod unedol yng Nghymru sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra, yn ôl y data ar gyfer Awst 2023, oedd Casnewydd (4.5%), Blaenau Gwent (4.1%), Caerdydd (3.8%), Torfaen (3.7% %), ac Ynys Môn (3.6%), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Powys (2.2%), Sir Fynwy (2.2%), Ceredigion (2.2%), Sir Gaerfyrddin (2.7%), a Gwynedd (2.7%).

Mae anweithgarwch economaidd yn cynyddu yn y DU ond yn parhau i ostwng yng Nghymru

Yn y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf 2023, bu cynnydd o 0.1 pwynt canran yng nghyfradd anweithgarwch economaidd y DU o'r chwarter i 21.1%. Nododd Trosolwg o'r Farchnad Lafur SYG, DU: Awst 2023³¹ fod y cynnydd mewn anweithgarwch economaidd yn y cyfnod diweddaraf o dri mis wedi'i ysgogi'n bennaf gan bobl rhwng 16 a 24 oed. Gostyngodd y rhai anweithgar oherwydd eu bod yn gofalu am deulu neu gartref i'r lefel isaf erioed, tra bod pobl anweithgar oherwydd salwch hirdymor wedi cynyddu i'r lefel uchaf

erioed. Gostyngodd cyfradd anweithgarwch economaidd Cymru 1.2 pwynt canran ar y chwarter i 23.2% rhwng Mai a Gorffennaf 2023.³²

Nid oes unrhyw ddiweddariad diweddar yn yr amcangyfrifon CDG arbrofol chwarterol ar gyfer Cymru y tu hwnt i'r rhai a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol³³ Dirnad Economi Cymru 2022/23, ac sy'n ymwneud â 2022 Ch3. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion allbwn tymor byr yn rhoi darlun mwy diweddar o weithgarwch yn sectorau cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad yr economi.

²⁸ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/redundancies/datasets/redundanciesbyindustryagesexandreemploymentratesred02>

²⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental>

³⁰ <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Unemployment/Claimant-Count/claimantcount-by-welshlocalareas-variable-month>

³¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/september2023>

³² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

³³ <https://developmentbank.wales/annual-report-september-2023>


Twf yn allbwn diwydiant adeiladu Cymru yn 2022Ch4 a 2023Ch1

Mae Ffigur 1 yn dangos y duedd ym mynegeion allbwn cynhyrchu, adeiladu, a gwasanaeth marchnad Cymru o 2020Ch1 i 2023Ch1. Mae mynegeion gwasanaethau cynhyrchu a marchnad wedi aros yn gymharol sefydlog am tua 8 chwarter yn olynol hyd at 2023 Ch1. Er bod y mynegai gwasanaethau marchnad wedi bod

yhydlig yn uwch na blwyddyn cyn-bandemig 2019, nid yw'r mynegai cynhyrchu wedi adennill i lefelau 2019, a gyda'r mynegai yn gostwng yn 2023 Ch1. Mewn cyferbyniad, mae'r mynegai adeiladu wedi cofnodi twf cryf ar gyfer y ddau chwarter diweddaraf a ddangosir yn Ffigur 1.

Ffigur 1.

Mynegeion allbwn Cymru: tuedd 2020Ch1 – 2023Ch1 (2019=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, [Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru \(2019=100\) fesul adran a blwyddyn](#) a [Mynegai Gwasanaethau Marchnad \(2019=100\) fesul blwyddyn ac ardal](#)

Mae twf y mynegai adeiladu yng Nghymru yn unol â'r arolwg gan Fonitor Cyllid BBaCh BVA-BDRC ar gyfer 2023 Ch2, sy'n nodi bod

amcangyfrif o 74% o BBaChau y DU yn y sector adeiladu wedi dweud eu bod mewn hwyliau 'da', yr uchaf ar draws pob sector.³⁴

³⁴ <https://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2023/09/SMEFM-Q2-2023-Chart-pack-FINAL-all-slides.pdf>

Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y flwyddyn hyd at 2023 Ch2

Mae'r SYG yn nodi y dylid bod yn ofalus hefyd wrth ddehongli data ar fasnach. Mae data fel arfer yn cael ei gyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu nominal sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i ddileu effeithiau chwyddiant. Ar gyfer y cyfnod hyd at 2023 Ch2 mae'r data ar fasnach mewn nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos y bu cynnydd yng ngwerth allforion o holl wledydd y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023 o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³⁵ Cynyddodd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru 11.1% i £20.4 biliwn dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023 (o gymharu â chynnydd o 12.6% yn yr Alban, 12.4% yn Lloegr, a 19.6% yng Ngogledd Iwerddon).

Profodd sawl sector yng Nghymru gyfradd twf cymharol uchel yng ngwerth eu hallforion dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023.³⁶ Cynyddodd cyfanswm allforion tanwyddau mwynol i £4.1bn yn y flwyddyn hyd at 2023 Ch2, o £3.9bn yn y deuddeg mis blaenorol, sef cynnydd o 6.8%. Cynyddodd allforion Peiriannau a Thrafnidiaeth i £8.2bn yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023, o £6.9bn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 18.9%.

Cyfanswm y cyfrif allforwyr yng Nghymru yn 2023Ch2 oedd 3,148, sef gostyngiad o

2.6% o'r ffigur yn 2022 Ch2 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan³⁷). Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 2.3% ar gyfer y DU gyfan yn yr un cyfnod amser.³⁸ Roedd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer y flwyddyn hyd at 2023 Ch2 yn dangos bod màs net o 8.5 biliwn cilogram yn cael ei allforio o Gymru, gostyngiad o 8.9% ers y deuddeg mis blaenorol.³⁹

Tyfodd gwerth y nwyddau a fewnforiwyd hefyd ym mhob un o wledydd y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023 o gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Yng Nghymru cynyddodd gwerth nwyddau a fewnforiwyd 13.9% i £23.5 biliwn dros y cyfnod hwn (o gymharu â chynnydd o 12.2% yn yr Alban, 9.7% yn Lloegr, a 10.5% yng Ngogledd Iwerddon).

